# Adroddiad perfformiad amgylcheddol blynyddol ar gyfer Dŵr Cymru 2021

**Paratowyd gan y tîm Dulliau Rheoleiddio Dŵr, Tir, Bioamrywiaeth a'r Môr**

## Cyflwyniad

Ein diben yw sicrhau rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol yn ein holl waith. Mae hyn yn golygu edrych ar ôl yr aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phridd i wella llesiant Cymru a chynnig dyfodol gwell i bawb.

Rydym yn monitro gweithgareddau cwmnïau dŵr er mwyn lleihau'r effaith y mae eu hasedau a'u gweithgareddau yn ei chael ar yr amgylchedd. Rydym yn gwneud hyn drwy wirio eu perfformiad amgylcheddol drwy gydol y flwyddyn mewn meysydd fel lleihau digwyddiadau llygredd, cydymffurfio â thrwyddedau, a chyflawni cynlluniau gwella'r amgylchedd.

Rydym yn rheoleiddio gweithrediadau Dŵr Cymru[1] yng Nghymru ac mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn rheoleiddio gweithrediadau Dŵr Cymru yn Lloegr; felly, mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cyfrannu at y broses asesu perfformiad a'r adroddiad hwn. Mae'r holl ddata a adroddir yn yr adroddiad hwn ar gyfer perfformiad Dŵr Cymru fel cwmni cyfan ac felly mae wedi'i gyfuno ar gyfer Cymru a Lloegr. Rydym hefyd yn asesu perfformiad Hafren Dyfrdwy, y gallwch ei weld ar ein gwefan.

## Cynnwys yr adroddiad

Rydym yn cyhoeddi'r adroddiad perfformiad amgylcheddol blynyddol hwn i amlinellu perfformiad Dŵr Cymru; mae'r adroddiad mewn dwy ran. Yn y rhan cyntaf, rydym yn asesu perfformiad Dŵr Cymru yn erbyn y chwe metrig yn yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol. Mae'r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol wedi'i safoni ledled Cymru a Lloegr. Mae hyn yn caniatáu i berfformiad y deg cwmni dŵr a charthffosiaeth mwyaf gael ei fonitro a'i asesu mewn ffordd gyson gan y rheoleiddwyr amgylcheddol. Yn yr ail ran, rydym yn monitro ac asesu perfformiad meysydd gwaith allweddol eraill na chwmpesir gan fetrigau'r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol. Nid yw'r adroddiad hwn yn cwmpasu pob agwedd ar reoleiddio cwmni dŵr.


- Rhan 1: Asesiad Perfformiad Amgylcheddol Dŵr Cymru — Tudalen 2-11
- Rhan 2: Perfformiad amgylcheddol ehangach Dŵr Cymru — Tudalen 12-19
- Disgwyliadau perfformiad ar gyfer 2022 — Tudalen 20
- Atodiadau — Tudalen 21-23


[1] Gwybodaeth Tŷ'r Cwmnïau: DWR [sic] CYMRU CYFYNGEDIG, rhif cwmni 02366777, cyfeiriad swyddfa gofrestredig: Linea, Fortran Road, Llaneirwg, Caerdydd, CF3 0EY.

# Rhan 1: Asesiad Perfformiad Amgylcheddol 2021 Dŵr Cymru

Yn 2021, enillodd Dŵr Cymru statws gwyrdd ar draws tri metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol a statws oren ar draws tri metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol. Mae hyn yn golygu bod y cwmni wedi ennill statws 'cwmni da' (tair seren). Mae'n siomedig gweld bod perfformiad Dŵr Cymru wedi disgyn o'i sgôr 'arwain y diwydiant' pedair seren a gyflawnwyd yn 2020.

Adolygir trothwyau metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol bob pum mlynedd er mwyn ysgogi gwelliannau'n barhaus. Yr adroddiad hwn ar berfformiad 2021 yw'r flwyddyn gyntaf i ni asesu perfformiad yn erbyn metrigau llymach ac ehangach yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol o gyfnod pum mlynedd newydd yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol (2021-25). Mae'r newidiadau i'r metrigau yn sicrhau ein bod yn parhau i bwyso ar y cwmnïau dŵr i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol a sicrhau bod ein disgwyliad i'r cwmnïau dŵr barhau i wthio am welliant yn glir. Dyma grynodeb o berfformiad Dŵr Cymru:

| Metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol | Canlyniad 2021 | Wedi'i gymharu â'r perfformiad blaenorol |
|---|---|---|
| Metrig 1: Cyfanswm digwyddiadau llygredd (carthffosiaeth) | **23** (Gwyrdd) | Wedi aros yn wyrdd |
| Metrig 2: Digwyddiadau llygredd difrifol (asedau carthffosiaeth a chyflenwad dŵr) | **3** (Oren) | Gostwng yn ôl i oren ar ôl cyflawni gwyrdd am ddwy flynedd |
| Metrig 3: Hunangofnodi digwyddiadau llygredd (asedau carthffosiaeth a chyflenwad dŵr) | **76%** (Oren) | Gostwng yn ôl i oren ar ôl cyflawni gwyrdd am un flwyddyn |
| Metrig 4: Cydymffurfio â thrwydded ollwng (rhifol) | **98.3%** (Oren) | Gostwng yn ôl i oren ar ôl cyflawni gwyrdd am un flwyddyn |
| Metrig 5: Cyflawni Cynllun Rheoli Asedau'r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol | **100%** (Gwyrdd) | Wedi aros yn wyrdd |
| Metrig 6: Y Mynegai Cydbwysedd rhwng Cyflenwad a Galw | **100** (Gwyrdd) | Wedi aros yn wyrdd |
| Sgôr seren gyffredinol y cwmni | **3 seren** | Wedi disgyn yn ôl i 3 seren ar ôl cyflawni 4 seren am y tro cyntaf y llynedd |

Allwedd: Statws metrig

| | |
|---|---|
| Gwyrdd | Perfformiad yn well na'r targed |
| Oren | Perfformiad islaw'r targed |
| Coch | Perfformiad ymhell o dan y targed |

Allwedd: Sgôr seren gyffredinol y cwmni

| | |
|---|---|
| 4 seren | Cwmni sy'n arwain y diwydiant |
| 3 seren | Cwmni da |
| 2 seren | Cwmni sydd angen ei wella |
| 1 seren | Cwmni sy'n perfformio'n wael |

# Prif negeseuon ar berfformiad

Fel y crynhoir ar dudalen 2, yn 2021, cyflawnodd Dŵr Cymru berfformiad sy'n agos at neu ychydig yn is na'r targed ar dri metrig a pherfformiad yn well na'r targed ar dri metrig:

- Metrig 1: Gwelwyd dirywiad mewn perfformiad yng nghyfanswm y digwyddiadau llygredd carthffosiaeth (categori 1-3). Er bod y metrig hwn wedi aros yn wyrdd, cynyddodd nifer gwirioneddol yr achosion o lygredd;
- Metrig 2: Roedd newid i'r diffiniad metrig i gynnwys digwyddiadau dŵr glân. Bu dau achos difrifol o lygredd carthffosiaeth ac un digwyddiad dŵr glân difrifol. Mae'r metrig hwn wedi gostwng o wyrdd i oren;
- Metrig 3: Gwelwyd dirywiad ym mherfformiad hunangofnodi digwyddiadau llygredd. Mae'r metrig hwn wedi gostwng o wyrdd i oren;
- Metrig 4: Gwelwyd dirywiad mewn perfformiad hefyd mewn cydymffurfedd ag amodau trwydded ansawdd dŵr rhifol. Mae'r metrig hwn wedi gostwng o wyrdd i oren;
- Metrig 5: Cyflawnwyd 100% o gynlluniau gwella Cynllun Rheoli Asedau Dŵr Cymru. Mae'r metrig hwn wedi aros yn wyrdd;
- Metrig 6: Cyflawnwyd sgôr o 100 yn y Mynegai Cydbwysedd rhwng Cyflenwad a Galw. Mae'r metrig hwn wedi aros yn wyrdd.

Mae'n hynod siomedig fod perfformiad mewn dau fetrig a gafodd y perfformiad gorau hyd at 2020 (hunangofnodi digwyddiadau llygredd a chydymffurfedd â thrwyddedau gollwng rhifol) wedi dirywio yn 2021. Mae'r dirywiad mewn perfformiad wedi bod mewn termau real ac ni ellir ei egluro drwy dynhau metrigau'r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol ar gyfer 2021. Mae canran y digwyddiadau llygredd sydd wedi cael eu hunangofnodi wedi gostwng ac mae achosion o ddiffyg cydymffurfio â thrwyddedau rhifol wedi cynyddu. Hefyd, er bod metrig cyfanswm digwyddiadau llygredd carthion wedi parhau'n wyrdd, cynyddodd nifer gwirioneddol y digwyddiadau llygredd.

Mae perfformiad digwyddiadau llygredd difrifol mewn termau real yn sefydlog, gyda'r un nifer o ddigwyddiadau llygredd difrifol yn 2020 a 2021 (3); mae'r metrig wedi gostwng o wyrdd i oren oherwydd cynnwys digwyddiadau dŵr glân difrifol (o asedau cyflenwad dŵr) yn y metrig ar gyfer 2021.

Dros yr ychydig dudalennau nesaf, mae gwybodaeth fwy manwl ar chwe metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol.

## Gwybodaeth gyfeirnodi ar yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol

Am fwy o fanylion ar fethodoleg yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol a thabl o berfformiad y flwyddyn flaenorol, cyfeiriwch at yr atodiadau hyn:

- Mae Atodiad 1 – tudalen 21 – yn esbonio'r fethodoleg rydym yn ei defnyddio i asesu perfformiad y cwmni;
- Mae Atodiad 2 – tudalen 22 – yn dangos sut mae Dŵr Cymru wedi perfformio yn erbyn metrigau'r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol ers 2012.

# Digwyddiadau llygredd

Fel rheoleiddwyr, rydym yn ymateb i amrywiaeth eang o ddigwyddiadau llygredd, a daw rhai o'r rhain o asedau a rhwydweithiau cwmnïau dŵr. Rydym yn adrodd ar faint o ddigwyddiadau y mae pob cwmni dŵr yn gyfrifol amdanynt. Diben hyn yw hybu gostyngiad parhaus yn nifer y digwyddiadau llygredd, gyda'r nod o leihau digwyddiadau i sero.

## Metrig 1 yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol: Cyfanswm digwyddiadau llygredd (carthffosiaeth)


Yn 2021, roedd gan Dŵr Cymru 83 o achosion o lygredd carthffosiaeth Uchel-Isel (Categori 1-3). O'r rheini, cafodd 81 effaith amgylcheddol Isel (Categori 3) a chafodd dwy effaith amgylcheddol Uchel (Categori 2).

Mae'r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol yn normaleiddio nifer y digwyddiadau yn ôl cyfanswm hyd y carthffosydd mae'r cwmni'n gyfrifol amdanynt (36,249 km), felly yn 2021 cyflawnodd Dŵr Cymru statws gwyrdd ar gyfer y metrig hwn:

| Metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol | Uned fesur | Beth mae'r metrig hwn yn ei olygu | Canlyniad 2021 (statws metrig) |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm digwyddiadau llygredd (carthffosiaeth)** | Digwyddiadau Categori 1-3 fesul 10,000 km o garthffosydd | Faint o ddigwyddiadau llygredd carthffosiaeth a ddigwyddodd, o fewn Categori 1-3, yn ôl hyd y carthffosydd | 23 (Gwyrdd) |

Fel y dengys y graff isod, gwelwyd gostyngiad cyson o un flwyddyn i'r llall yn nifer y digwyddiadau llygredd rhwng 2011 a 2014. Wedyn, rhwng 2014 a 2019, roedd dim ond ychydig iawn o ostyngiad o 14 digwyddiad dros chwe blynedd. Yn 2020, bu gostyngiad sylweddol o 17 digwyddiad, i gyflawni statws gwyrdd am y tro cyntaf. Er bod metrig cyfanswm y digwyddiadau llygredd carthion wedi aros yn wyrdd, yn 2021 bu cynnydd o chwe digwyddiad (o 77 yn 2020 i 83 yn 2021). Mae'n siomedig nad yw Dŵr Cymru wedi cynnal ei welliant yn y metrig hwn ers y llynedd.

**Nifer y digwyddiadau carthffosiaeth fesul blwyddyn**




| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Uchel – mawr (Cati 1) | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Uchel – sylweddol (Cat 2) | 2 | 6 | 2 | 4 | 2 | 2 | 2 | 2 | 0 | 1 | 2 |
| Isel (Cat 3) | 236 | 193 | 120 | 104 | 107 | 105 | 101 | 98 | 94 | 76 | 81 |

Disgwyliwn i Dŵr Cymru ganolbwyntio ymdrechion ar leihau nifer y digwyddiadau i gyflawni dim digwyddiadau. Disgwyliwn i Dŵr Cymru ddefnyddio arferion gorau o bob rhan o'r sector i leihau llygredd ac arwain y ffordd yn barhaus.

## Metrig 2 yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol: Digwyddiadau llygredd difrifol (Categori 1 a 2 o asedau carthffosiaeth a chyflenwad dŵr)

Mae'r metrig hwn yn edrych ar gyfanswm nifer y digwyddiadau llygredd difrifol. Fel y dangosir yn y graff uchod, roedd dau ddigwyddiad carthffosiaeth difrifol yn 2021 a oedd ag effaith amgylcheddol Uchel (Categori 2). Yn 2021, bu newid i'r diffiniad metrig i gynnwys digwyddiadau o asedau cyflenwad dŵr bellach. Roedd un digwyddiad dŵr glân difrifol yn 2021 a gafodd effaith amgylcheddol Uchel (Categori 2).

| Metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol | Uned fesur | Beth mae'r metrig hwn yn ei olygu | Canlyniad 2021 (statws metrig) |
|---|---|---|---|
| **Digwyddiadau llygredd difrifol (asedau carthffosiaeth a chyflenwad dŵr)** | Cyfanswm nifer y digwyddiadau (Categorïau 1 a 2) | Faint o achosion difrifol o lygredd carthffosiaeth a dŵr glân a ddigwyddodd, o Gategori 1-2, cyfanswm | 3 (Oren) |

Mae'n siomedig bod Dŵr Cymru wedi cael dau ddigwyddiad llygredd carthffosiaeth difrifol yn 2021 ar ôl cael dim yn 2019 ac un yn 2020. Rydym yn disgwyl i Dŵr Cymru fod ag awydd i wella er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ddigwyddiadau difrifol o asedau carthffosiaeth neu gyflenwad dŵr yn 2022, gan ddefnyddio arferion gorau, megis adolygiadau ar ôl digwyddiadau, i sicrhau y gweithredir unrhyw welliannau yn brydlon yn dilyn unrhyw ddigwyddiad difrifol.

# Digwyddiadau hunangofnodi

Fel rheoleiddiwr, rydym am i gwmnïau dŵr hunangofnodi gymaint o'r digwyddiadau llygredd â phosibl. Bydd hyn yn golygu y gallwn fod yn fwy hyderus fod y cwmni dŵr yn:

- deall ei asedau a'i rwydweithiau'n well;
- edrych yn barhaus am ffyrdd o wella sut mae'n rhagweld digwyddiadau llygredd, gan gynnwys defnyddio'i ddata telemetreg ei hun i wella lefelau hunangofnodi;
- defnyddio ei ddata i nodi mannau peryglus a thargedu lleoliadau risg uchel a mathau penodol o asedau;
- rhoi sylw ac ymateb i ddigwyddiadau'n gyflym er mwyn stopio unrhyw effaith cyn gynted â phosibl.

## Metrig 3 yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol: Hunangofnodi digwyddiadau llygredd (Categori 1 i 3 o asedau carthffosiaeth a chyflenwad dŵr)


Mewn adroddiadau blaenorol, rydym wedi annog Dŵr Cymru i anelu at hunangofnodi am o leiaf 80% o'i ddigwyddiadau llygredd. Yn 2021, methodd Dŵr Cymru â chyrraedd 80%, gan gyflawni 76%:

Fel y dengys y graff isod, mae perfformiad Dŵr Cymru yn y metrig hwn yn parhau i fod yn ansefydlog. Cyflawnwyd ei gyfradd uchaf o hunangofnodi yn 2020 (80%). Yn 2021, mae'r cwmni wedi gostwng i statws oren, gan gyflawni dim ond 76%.

| Metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol | Uned fesur | Beth mae'r metrig hwn yn ei olygu | Canlyniad 2021 (statws metrig) |
|---|---|---|---|
| **Hunangofnodi digwyddiadau llygredd (asedau carthffosiaeth a chyflenwad dŵr)** | % | Canran y digwyddiadau llygredd y gwnaeth y cwmni eu hunangofnodi | 76/61 (Oren) |

O dan fetrigau llymach ac ehangach yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol o gyfnod pum mlynedd newydd yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol (2021-25), dim ond os bydd hefyd yn hunangofnodi 90% o’r holl ddigwyddiadau mewn gorsafoedd pwmpio a gweithfeydd trin carthion wedi'u cyfuno y gall Dŵr Cymru gyflawni statws gwyrdd. Yn 2021, cyflawnodd Dŵr Cymru 61% o hunangofnodi ar gyfer gorsafoedd pwmpio a gweithfeydd trin carthion gyda’i gilydd. Mae angen i'r cwmni wneud gwelliannau sylweddol i allu cyflawni 90% yn 2022.

Mae'n siomedig nad yw Dŵr Cymru wedi cynnal ei welliant yn y metrig hwn ers y llynedd. Disgwyliwn i Dŵr Cymru wthio am welliant i hunangofnodi o leiaf 80% o'i ddigwyddiadau llygredd yn 2022 a chyrraedd statws gwyrdd eto. Anogwn Dŵr Cymru i ystyried mentrau eraill a ddefnyddir ar draws y diwydiant i barhau i wella ei gyfradd hunangofnodi.




# Cydymffurfio â thrwyddedau gollwng dŵr

Mae CNC ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn dyroddi trwyddedau ar gyfer gollyngiadau dŵr, sy'n cynnwys gollyngiadau wedi'u trin o weithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr cwmnïau dŵr. Mae'r trwyddedau yn gofyn i'r gollyngiadau fodloni meini prawf penodol er mwyn sicrhau nad yw'r amgylchedd dŵr yn dirywio. Mae cwmnïau dŵr yn hunanfonitro eu gollyngiadau ac mae'n ofynnol iddynt ddarparu data ar ein cyfer yr ydym yn ei asesu am gydymffurfedd. Rydym yn disgwyl cydymffurfedd â holl amodau'r drwydded.


## Metrig 4 yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol: Cydymffurfio â'r drwydded ollwng (gweithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr)

Yn 2021, cyflawnodd Dŵr Cymru statws oren ar gyfer y metrig hwn, gan gydymffurfio â'r terfynau ansawdd dŵr ar ei drwyddedau rhifyddol ar gyfer gweithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr 98.3% o'r amser. Mae hwn yn ddirywiad amlwg o'i gymharu â 2020, pan oedd y metrig yn wyrdd am y tro cyntaf ers 2016. Yn 2021, roedd saith o weithfeydd trin carthion nad oeddent yn cydymffurfio allan o'r 562 y mae Dŵr Cymru yn eu gweithredu a thri o weithfeydd trin dŵr nad oeddent yn cydymffurfio allan o'r 34 y mae Dŵr Cymru yn eu gweithredu.

| Metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol | Uned fesur | Beth mae'r metrig hwn yn ei olygu | Canlyniad 2021 (statws metrig) |
|---|---|---|---|
| **Cydymffurfio â thrwyddedau gollwng (gweithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr)** | % | Canran y cydymffurfedd ymhlith gweithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr â therfynau ansawdd dŵr ar eu gollyngiadau | 98.3 (Oren) |

Fel y dengys y graff isod, roedd perfformiad Dŵr Cymru ar y metrig hwn wedi amrywio ers sawl blwyddyn, cyn i'r cwmni gyflawni ei berfformiad gorau yn 2020. Mae'n siomedig nad yw Dŵr Cymru wedi cynnal ei welliant yn y metrig hwn ers y llynedd.

**Nifer y gweithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr a % y cydymffurfedd cyffredinol mewn safleoedd rhifol**




| | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y gweithfeydd trin dŵr sy'n methu | 9 | 10 | 3 | 10 | 10 | 5 | 0 | 3 |
| Nifer y gweithfeydd trin carthion sy'n methu | 5 | 8 | 3 | 10 | 2 | 6 | 2 | 7 |
| % cyffredinol o gydymffurfedd gollwng | 97.8 | 97.1 | 99.0 | 96.7 | 98.0 | 98.2 | 99.7 | 98.3 |

Disgwyliwn i Dŵr Cymru chwilio am gyfleoedd i fonitro a nodi gweithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr a allai fod yn gostwng mewn perfformiad yn ystod y flwyddyn yn rhagweithiol, gyda'r nod o sicrhau cydymffurfedd o 100% â'r metrig hwn. Er nad yw Dŵr Cymru wedi cyflawni 100% ar unrhyw adeg, mae cwmnïau eraill yn y sector wedi cyflawni'r targed hwn.

Mae cydymffurfedd amodau disgrifiadol yn perthyn yn agos i gydymffurfedd amodau rhifol, lle mae gennym bryderon sylweddol yn dilyn dwy flynedd o berfformiad gwael yn 2020 a 2021. Mae'n bwysig bod Dŵr Cymru yn cydymffurfio â'r amodau yn ei drwyddedau yn 2022. Gweler tudalennau 10-11 am ragor o fanylion ynghylch cydymffurfio ag amodau disgrifiadol.

## Metrig 5 yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol: Cyflawni Cynllun Rheoli Asedau'r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol

Mae'r metrig hwn yn ystyried sut mae Dŵr Cymru wedi cyflawni yn erbyn ei Gynllun Rheoli Asedau pum mlynedd rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022. Mae'n ystyried canran y cynlluniau a gyflawnwyd o'u cymharu â'r cynlluniau a gynlluniwyd rhwng 2020 a 2025.

| Metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol | Uned fesur | Beth mae'r metrig hwn yn ei olygu | Canlyniad 2021 (statws metrig) |
|---|---|---|---|
| **Cyflawni Cynllun Rheoli Asedau'r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol** | **% y gwaith cyflawni arfaethedig** | P'un a yw Cynllun Rheoli Asedau'r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol yn cael ei gyflawni fel y bwriadwyd ai peidio | 100 (Gwyrdd) |

Yn 2021/22, cyflawnodd Dŵr Cymru bob un o'r 63 o gynlluniau yn unol â'r bwriad – 46 yng Nghymru ac 17 yn Lloegr. Bydd y gwelliannau a gyflawnwyd gan y rhaglen yn golygu bod asedau'n cyflawni safonau uwch ac yn cyflenwi gwelliannau ansawdd dŵr. Rydym yn disgwyl Dŵr Cymru i gynnal statws gwyrdd ar gyfer 2022.

## Metrig 6 yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol: Y Mynegai Cydbwysedd rhwng Cyflenwad a Galw

Mae'r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol yn cynnwys y Mynegai Cydbwysedd rhwng Cyflenwad a Galw am y tro cyntaf. Mae'r metrig hwn yn disodli ein Mynegai Diogelwch Cyflenwad a adroddwyd yn yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol tan 2020. Mae metrig y Mynegai Cydbwysedd rhwng Cyflenwad a Galw yn mesur sut mae'r cydbwysedd gwirioneddol rhwng y cyflenwad a'r galw wedi perfformio o'i gymharu â'r hyn a nodir yng Nghynllun Rheoli Adnoddau Dŵr cwmni dŵr. Disgwyliwn i gwmnïau gael sgôr o 100. Sgôr y Mynegai Cydbwysedd rhwng Cyflenwad a Galw ar gyfer 2021 yw 100, felly mae metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol yn wyrdd:

| Metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol | Uned fesur | Beth mae'r metrig hwn yn ei olygu | Canlyniad 2021 (statws metrig) |
|---|---|---|---|
| **Mynegai Cydbwysedd rhwng Cyflenwad a Galw** | Sgôr y Mynegai Cydbwysedd rhwng Cyflenwad a Galw, uchafswm 100 | Sut mae'r cydbwysedd gwirioneddol rhwng y cyflenwad a'r galw wedi perfformio o'i gymharu â'r hyn a nodir yn ei Gynllun Rheoli Adnoddau Dŵr | 100 (Gwyrdd) |

## Metrig - wrthi'n cael ei ddatblygu: cydymffurfio ag amodau disgrifiadol trwyddedau ar ansawdd dŵr

Yn dilyn ymgynghoriad, rydym yn gweithio i gyflwyno metrig perfformiad ychwanegol ar gyfer cwmnïau Cymreig yn unig – cydymffurfedd amodau trwydded disgrifiadol. Mae amodau disgrifiadol yn ymwneud ag agweddau nad ydynt yn rhifol fel cynnal a chadw, rheoli ac adrodd. Gyda pherfformiad amodau disgrifiadol yn amlwg yn is nag ar gyfer perfformiad amodau rhifol, roeddem am gael mwy o waith craffu ar amodau disgrifiadol.

Mae'r metrig hwn yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd fel y gallwn sicrhau ei fod yn gadarn ac yn cael ei adrodd yn gywir. Byddwn yn parhau i adrodd ar berfformiad Dŵr Cymru yn erbyn y 'metrig – wrthi'n cael ei ddatblygu' yn flynyddol. Disgwyliwn weld perfformiad yn gwella flwyddyn ar ôl blwyddyn. Ein nod yw cyflwyno trothwyau perfformiad coch/oren/gwyrdd o ddechrau cyfnod adrodd pum mlynedd nesaf yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol (2026-2030).

| | Cydymffurfedd amodau disgrifiadol | Nifer y safleoedd nad ydynt yn cydymffurfio |
|---|---|---|
| **2019** | 93% | 50 |
| **2020** | 63% | 317 |
| **2021** | 87% | 112 |

Yn 2019, dim ond 93% oedd y cydymffurfedd cyffredinol ag amodau disgrifiadol. Yn 2020, bu dirywiad sylweddol ym mherfformiad Dŵr Cymru, gyda chydymffurfedd cyffredinol ag amodau disgrifiadol yn gostwng i 63% yn unig. Yn 2021, dim ond 87% oedd perfformiad Dŵr Cymru gyda chydymffurfedd amodau disgrifiadol cyffredinol mewn gweithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr. Allan o 854 o weithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr (safleoedd â thrwyddedau rhifol a disgrifiadol), nid oedd 112 yn cydymffurfio. Er bod hyn yn welliant ers y llynedd, mae'r perfformiad hwn ymhell islaw perfformiad yn 2019 a hefyd yn is na'n disgwyliad o gydymffurfedd 100%, sy'n bryder.

Roedd diffyg cydymffurfio ymhlith y rhan fwyaf o'r 112 o safleoedd yn sgil achosion o dorri amodau mewn perthynas â gwaith monitro, adrodd a hysbysu ar gyfer rhaglenni hunanfonitro gweithredwyr, dŵr gwastraff trefol a monitro UV a nodwyd gennym yn ystod ein hasesiad cydymffurfedd. Roeddent naill ai'n Categori 3 neu 4 ar gyfer diffyg cydymffurfio.[2]

Ar gyfer cydymffurfedd ag amodau disgrifiadol yn gyffredinol, rydym yn disgwyl i'r cwmni wneud y canlynol:

---

[2] Rydym yn defnyddio categorïau diffyg cydymffurfio i sgorio achosion o dorri amodau trwydded. Maent ar raddfa o 1 i 4:

- Categori 1 – Mawr: posibilrwydd o gael dylanwad neu effaith fawr, ddifrifol, barhaus a/neu helaeth ar yr amgylchedd, pobl a/neu eiddo;
- Categori 2 – Sylweddol: posibilrwydd o gael dylanwad neu effaith sylweddol ar yr amgylchedd, pobl a/neu eiddo;
- Categori 3 – Mân: posibilrwydd o gael mân ddylanwad neu effaith ar yr amgylchedd, pobl a/neu eiddo;
- Categori 4 – Dim effaith: achos o ddiffyg cydymffurfio ar safle rheoledig lle nad oes modd rhagweld y bydd yn cael unrhyw ddylanwad ar yr amgylchedd, pobl a/neu eiddo.

- cymryd camau gweithredu cyflym a chadarnhaol i sicrhau bod achos sylfaenol yr achosion o ddiffyg cydymffurfio a welwyd yn 2021 yn cael ei gywiro cyn gynted â phosibl;
- gwella ei berfformiad cyffredinol ag amodau disgrifiadol yn 2022 bob blwyddyn (o'i gymharu â pherfformiad 2019), gan anelu at gydymffurfedd o 100%;
- canolbwyntio ar roi diwedd ar yr holl achosion o ddiffyg cydymffurfio ag amodau disgrifiadol Categori 1 a 2, gan fod gan y rhain y potensial mwyaf ar gyfer effaith amgylcheddol ddifrifol.

## Asesu cydymffurfedd â thrwyddedau gorlif storm

Drwy ein gwaith ymateb arferol i ddigwyddiadau a gwaith asesu cydymffurfedd a gynhaliwyd yn 2021, canfuom fod 60 o orlifoedd storm a ganiateir (gorsafoedd pwmpio carthion, gorlifoedd carthffosydd cyfun a gollyngiadau storm o weithfeydd trin carthion) yn peidio â chydymffurfio am amrywiaeth o resymau. Disgrifir y tri math mwyaf cyffredin o ddiffyg cydymffurfio isod.

- Nid oedd 11 o safleoedd yn cydymffurfio oherwydd problemau gyda sgriniau, a oedd yn y rhan fwyaf o achosion yn achosi i falurion carthion ddianc o'r ased a mynd i mewn i'r amgylchedd. Aseswyd yr holl achosion hyn o ddiffyg cydymffurfio fel Categori 3 (y potensial i gael effaith fach), a rhoddwyd rhybudd i'r mwyafrif.
- Nid oedd 16 o safleoedd yn cydymffurfio oherwydd eu bod yn gollwng mewn amodau lle nad oedd stormydd. Roedd y mwyafrif yn ymwneud â rhwystrau mewn carthffosydd. Cafodd yr achosion o ddiffyg cydymffurfio eu categoreiddio fel a ganlyn: tri fel Categori 2, 12 fel Categori 3 ac un fel Categori 4; rhoddwyd rhybudd i'r mwyafrif.
- Nid oedd 28 o safleoedd yn cydymffurfio am fethu â chyflwyno eu data EDM 2020 yn ôl y gofyn; rhoddwyd rhybudd i'r mwyafrif. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain wedi'u datrys ers hynny.

# Rhan 2: Perfformiad amgylcheddol ehangach Dŵr Cymru


Mae chwe metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol yn is-set o berfformiad amgylcheddol. Mae llawer o feysydd eraill o waith monitro, adrodd a rheoleiddio rydym yn eu gwneud yn ymwneud â gweithgareddau Dŵr Cymru, y mae rhai ohonynt yn Rhan 2 o'r adroddiad hwn. Mae rhai agweddau'n gysylltiedig yn agos â metrigau'r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol, megis digwyddiadau llygredd a chydymffurfedd, ac mae gan rai gwmpas ehangach.

## Digwyddiadau llygredd (asedau cyflenwad dŵr)

Yn ogystal â digwyddiadau carthffosiaeth, rydym hefyd yn monitro nifer y digwyddiadau o asedau sy'n gysylltiedig â'r cyflenwad dŵr yfed. Er nad ydynt yn cael eu cynnwys ym metrig 1 digwyddiadau llygredd (carthffosiaeth) yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol, maent yn agwedd bwysig ar berfformiad amgylcheddol. Mae'r digwyddiadau hyn yn aml yn cynnwys gollwng dŵr yfed sydd wedi'i drin yn rhannol neu'n llwyr o asedau cyflenwad dŵr, megis gweithfeydd trin dŵr a systemau dosbarthu dŵr (prif gyflenwad dŵr). Mae gan y gollyngiadau y potensial i gynnwys cemegau fel clorin, alwminiwm neu haearn; gallant yn aml ollwng ar gyflymder uchel, felly gallant achosi digwyddiadau llygredd mewn perthynas â gwaddodion yn y cwrs dŵr.

Yn 2021, roedd 79 o achosion o lygredd dŵr glân – un ohonynt yn sylweddol (Uchel / Categori 2) a 78 yn Isel / Categori 3:

**Nifer y digwyddiadau cyflenwad dŵr fesul blwyddyn**




| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Uchel – mawr (Cat 1) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Uchel – sylweddol (Cat 2) | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 2 | 2 | 1 |
| Isel (Cat 3) | 6 | 6 | 2 | 4 | 0 | 6 | 11 | 20 | 26 | 63 | 78 |

Mae'r perfformiad cyffredinol ar gyfer digwyddiadau cyflenwad dŵr yn annerbyniol. Rydym yn galw am weithredu brys gan Dŵr Cymru ar ôl i 2021 weld y chweched flwyddyn yn olynol pan gynyddodd nifer y digwyddiadau o asedau cyflenwad dŵr. Rydym yn croesawu cynnwys digwyddiadau difrifol o asedau cyflenwad dŵr ym metrig digwyddiadau llygredd difrifol yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol o 2021 er mwyn rhoi mwy o bwyslais ar y maes perfformiad hwn.

Disgwyliwn i Dŵr Cymru leihau nifer yr holl ddigwyddiadau (carthffosiaeth a chyflenwad dŵr) i sero.

## Cydymffurfio ag amodau llif mewn gweithfeydd trin carthion

Darparodd Dŵr Cymru ddata Llif Tywydd Sych yn unol â gofynion ei drwydded. Adroddwyd bod wyth o weithfeydd trin carthion yng Nghymru a dau yn Lloegr wedi mynd y tu hwnt i derfynau eu trwydded Llif Tywydd Sych yn 2021, gan arwain at y safleoedd yn gollwng mwy o garthion a driniwyd nag a ganiateir. Mae'n ofynnol bod Dŵr Cymru yn cynnal ymchwiliadau ac adrodd am achos y gormodiant i ni a, lle y bo'n briodol, cwblhau camau adferol o fewn amserlen gytunedig.

Adroddwyd bod 11 o weithfeydd trin carthion yng Nghymru wedi profi problemau data yn 2021 ac mae’r cwmni’n gweithio i’w datrys.

Mae ymchwiliad ar y gweill i 13 o weithfeydd eraill yng Nghymru a dau yn Lloegr gan Dŵr Cymru o ganlyniad i gwestiynau dros derfynau llif trin llawn a ganiateir eu trwyddedau, sy'n golygu na allent fod yn trin y llif sy'n ofynnol gan eu trwyddedau.

Mae Dŵr Cymru wedi gwneud cynnydd gyda'i system rheoli mewnol ar gyfer ardystiad MCERTS, sef system sy'n archwilio ac yn ardystio addasrwydd a chywirdeb ei offer monitro llif yn annibynnol. Roedd ei holl safleoedd yn cydymffurfio â gofynion ailardystio MCERTS yn 2021.

Ar ddiwedd 2021, cyhoeddodd Asiantaeth yr Amgylchedd ac Ofwat y byddent yn ymchwilio i achosion posibl o ddiffyg cydymffurfio ag amodau trwydded llif trin llawn gan weithfeydd trin carthion yn Lloegr. Mae'r ymchwiliadau'n dadansoddi gwybodaeth a gyflwynwyd gan gwmnïau dŵr i reoleiddwyr sy'n amlygu achosion posibl o ddiffyg cydymffurfio â thrwyddedau.

Yng Nghymru, nid ydym yn bwriadu cynnal ymchwiliad tebyg ar hyn o bryd, gan fod gennym ymateb cydymffurfio eisoes ar waith. Mae Dŵr Cymru wedi bod yn rhannu gwybodaeth debyg gyda ni ers 2014. Nododd y gwaith hwn safleoedd yr oedd angen i Dŵr Cymru ymchwilio iddynt, a edrychodd wedyn ar achosion diffyg cydymffurfio. Rydym wedi gweithio gyda Dŵr Cymru i sicrhau bod y safleoedd yn dychwelyd i gydymffurfio â’u trwydded cyn gynted â phosibl.

Byddwn yn parhau i fonitro'r ymchwiliadau gan Asiantaeth yr Amgylchedd ac Ofwat yn Lloegr ac rydym yn gweithio'n agos gyda'r ddau sefydliad i ddeall canlyniadau'r ymchwiliad. Byddwn yn adolygu ein dull rheoleiddio presennol yng Nghymru, os bydd angen.

# Gorlifoedd storm a ganiateir – Cymru yn unig

Mae Dŵr Cymru wedi gosod monitorau hyd digwyddiad (EDM), i fonitro nifer a hyd gollyngiadau, ar y rhan fwyaf o'u gorlifoedd storm a ganiateir yng Nghymru. Mae hyn yn golygu y bydd EDM yn cael eu gosod ar yr asedau canlynol:

- gorlifoedd storm ar y rhwydwaith carthffosydd (gorlifoedd carthffosydd cyfun);
- gorlifoedd storm o orsafoedd pwmpio;
- gorlifoedd storm mewn gweithfeydd trin carthion.

Mae gan y nifer fach sy'n weddill gynlluniau ar waith i osod EDM erbyn diwedd 2023.

Yn yr adran hon, rydym yn rhannu data ar orlifoedd storm a ganiateir yn unig. Ar gyfer gorlifoedd storm sy'n gweithredu heb drwydded ar hyn o bryd, mae gennym raglen waith ar y gweill i ddod â nhw o fewn ein fframwaith rheoleiddio, pan fo hynny'n briodol.

Mae rhagor o wybodaeth am orlifoedd storm ar gael ar ein gwefan.

## Tasglu Ansawdd Dŵr Afon Gwell

Ar 5 Gorffennaf 2022, cyhoeddodd y Tasglu Ansawdd Dŵr Afon Gwell gynlluniau gweithredu ochr yn ochr â'i fap trywydd ar gyfer gorlifoedd storm ar ein gwefan. Mae'r rhain yn nodi amcanion a chanlyniadau mesuradwy ar gyfer cyflawni gwelliannau i'r gwaith o reoli a rheoleiddio gorlifoedd yng Nghymru o safbwynt amgylcheddol. Rydym yn bartner ar y tasglu hwn ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru, Ofwat, Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy, sy'n cael cyngor annibynnol gan Afonydd Cymru a'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr.

Fel y mae'r cynlluniau gweithredu yn y map trywydd yn nodi, rydym yn datblygu ein fframwaith rheoleiddio i sicrhau bod cwmnïau dŵr yn mynd i'r afael ag effaith amgylcheddol gollyngiadau o orlifoedd storm.

## Data EDM yr ydym yn adrodd arnynt

At ddibenion yr adroddiad hwn, rydym wedi defnyddio data cryno EDM 2020. Daw'r data hwn o'r datganiad rheoleiddio blynyddol a gyflwynwyd gan y cwmni dŵr ar gyfer gorlifoedd storm a ganiateir yng Nghymru yn unig. Rydym wedi cynnal gwiriadau ansawdd data ac wedi eithrio data na ellid ei gadarnhau ar hyn o bryd. Bydd y data eithriedig yn cael ei ddadansoddi ymhellach a'i gynnwys mewn adroddiadau yn y dyfodol.

Byddwn hefyd yn cwblhau gwiriadau ar ddata EDM 2021 fel y gellir ei gynnwys mewn adroddiadau dilynol, wedi'u halinio â'r gwaith yn y Tasglu Ansawdd Dŵr Afon Gwell.

## Datganiad Rheoleiddiol ar Fonitro Hyd Digwyddiadau 2020 – Cymru yn unig

Roedd gan Dŵr Cymru gyfanswm o 1,583 o drwyddedau gydag amodau EDM mewn grym ynddynt yn 2020. Rydym wedi parhau i ddyroddi amrywiadau EDM i drwyddedau gorlif storm, gyda mwy yn cael eu dyroddi yn ystod 2021 a 2022. O'r 1,583, cadarnhawyd data

EDM 2020 ar gyfer 1,441 o orlifoedd storm a ganiateir i'w cynnwys yn yr adroddiad hwn. Defnyddiwyd y data hwn i gynhyrchu'r graffiau a'r canrannau isod.


Rydym yn cydnabod bod Cymru wedi profi ei phumed flwyddyn wlypaf ers 1865 yn 2020, gyda deg storm a enwyd yn effeithio ar y DU. Roedd Chwefror 2020 yn fis arbennig o wlyb gyda thair storm wedi'u henwi, a arweiniodd at y mis gwlypaf i Gymru ers 1865. Fodd bynnag, hyd nes y byddwn wedi cwblhau ein gwaith yn datblygu ffordd gadarn o nodi pryd mae gollyngiadau yn digwydd mewn tywydd sych, ni allwn ddod i unrhyw gasgliadau eto ar unrhyw dueddiadau neu batrymau yn yr adroddiad hwn.

## Nifer y gollyngiadau

Mae data EDM 2020 ar nifer y gollyngiadau (gan ddefnyddio'r fethodoleg cyfrif bloc)[3] o 1,441 o orlifoedd storm Dŵr Cymru a ganiateir yn dweud y canlynol wrthym:

- Cafodd 10% o orlifoedd storm (138) 0 gollyngiad;
- Cafodd 18% (261) ollyngiadau rhwng 1 a 9 gwaith;
- Cafodd 23% (333) ollyngiadau rhwng 10 a 39 gwaith;
- Cafodd 29% (413) ollyngiadau rhwng 40 a 99 gwaith;
- Cafodd 20% (290) ollyngiadau rhwng 100 a 299 gwaith;
- Cafodd gollyngiadau mewn llai nag 1% (6) fwy na 300 o weithiau.

Mae'r graff isod yn dangos y data hwn.




[3] Y fethodoleg cyfrif bloc a ddefnyddir i gyfrif gollyngiadau o orlifoedd storm yw'r dull cyfrif 12/24:

1. Dechreuwch gyfrif pan fydd y gollyngiad cyntaf yn digwydd.
2. Mae unrhyw ollyngiad (neu ollyngiadau) yn y bloc 12 awr cyntaf yn cael eu cyfrif fel un gollyngiad.
3. Mae unrhyw ollyngiad (neu ollyngiadau) yn y bloc 24 awr nesaf, a'r blociau 24 awr dilynol, yn cael eu cyfrif fel un gollyngiad ychwanegol fesul bloc.
4. Parhewch i gyfrif nes bod bloc 24 awr heb unrhyw ollyngiad.

Ar gyfer y gollyngiad nesaf ar ôl y bloc 24 awr heb unrhyw ollyngiad, byddwch yn dechrau eto gyda'r dilyniant cyfrif gollyngiadau bloc 12 awr a 24 awr.


Mae CNC ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn defnyddio'r un dull hwn er mwyn sicrhau cysondeb ar draws cwmnïau dŵr.

## Hyd y gollyngiadau

Mae data EDM 2020 ar hyd y gollyngiadau o 1,441 o orlifoedd storm Dŵr Cymru a ganiateir yn dweud y canlynol wrthym:

- Cafodd 10% (138) o orlifoedd storm 0 awr o ollyngiadau;
- Cafodd 29% (425) ollyngiadau a barodd am fwy na 0 awr ond llai na 50 awr;
- Cafodd 27% (382) ollyngiadau a barodd am o leiaf 50 awr ond llai na 250 awr;
- Cafodd 10% (145) ollyngiadau a barodd am o leiaf 250 awr ond llai na 500 awr;
- Cafodd 10% (137) ollyngiadau a barodd am o leiaf 500 awr ond llai na 1,000 awr;
- Cafodd 15% (209) ollyngiadau a barodd am o leiaf 1,000 awr ond llai na 5,000 awr;
- Cafodd llai nag 1% (5) ollyngiadau a barodd am fwy na 5,000 o oriau.

Mae'r graff isod yn dangos y data hwn.




## Adrodd yn y dyfodol

Rydym yn parhau i ddatblygu ein dull rheoleiddio o ran sut rydym yn gwirio, asesu a defnyddio'r data EDM y mae cwmnïau dŵr yn ei gyflwyno i ni. Mae hyn yn cynnwys datblygu ffordd gadarn o nodi gorlifoedd storm sy'n gorlifo mewn tywydd sych.

Byddwn yn parhau i ddatblygu sut rydym yn monitro ac yn adrodd ar berfformiad ar orlifoedd storm yn unol â'n camau gweithredu a nodir yn y cynlluniau gweithredu ar gyfer gorlifoedd storm, gan weithio'n agos gyda'r Tasglu Ansawdd Dŵr Afon Gwell.

Rydym hefyd yn bwrw ymlaen â gwaith i'n galluogi i rannu data cryno EDM o'r datganiad rheoleiddio ar ein cofrestr gyhoeddus.

## Cydymffurfio â thrwyddedau adnoddau dŵr

Gwnaethom gynnal 27 o asesiadau cydymffurfio â thrwyddedau adnoddau dŵr yn 2021. Nodwyd 18 achos o dorri amodau trwydded yn ystod deg o'r asesiadau. Dim ond mân welliant yw hwn o'i gymharu â 2020, pan oedd 11 allan o 14 asesiad yn methu â chydymffurfio.

Roedd yr holl achosion o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn rhai Categori 3 neu 4[4] ac, er bod y rhain yn gategorïau is o risg amgylcheddol, rydym yn dal i ddisgwyl gweld gwelliant pellach i sicrhau cydymffurfedd llawn yn y dyfodol.

## Cynlluniau sychder a chynlluniau rheoli adnoddau dŵr

Mae gan gwmnïau dŵr ddyletswydd i gynnal cyflenwadau dŵr yn eu hardal, heb niweidio'r amgylchedd nac effeithio ar anghenion defnyddwyr dŵr eraill. Mae gofyniad statudol ar gwmnïau dŵr i baratoi, cynnal a chyhoeddi cynlluniau rheoli adnoddau dŵr a chynlluniau sychder. Cyhoeddwyd y cynllun rheoli adnoddau dŵr diweddaraf yn 2019 a chyhoeddwyd y cynllun sychder diweddaraf ym mis Mawrth 2021. Ar hyn o bryd, mae Dŵr Cymru yn llunio fersiwn 24 o'i gynllun rheoli adnoddau dŵr ac rydym yn gweithio gyda nhw i sicrhau bod hwn yn bodloni'r gofynion. Caiff y rhain eu cyhoeddi bob pum mlynedd. I gael yr wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â chynlluniau rheoli adnoddau dŵr Dŵr Cymru, gweler ei wefan:

- Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr 2019: https://www.dwrcymru.com/cy-gb/our-services/water/water-resources/final-water-resources-management-plan-2019
- Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr 2024 (drafft): https://www.dwrcymru.com/cy/our-services/water/water-resources/draft-water-resources-management-plan-2024
- Cynllun Sychder 2020-2025: https://www.dwrcymru.com/cy-gb/our-services/water/water-resources/final-drought-plan-2020
- Edrychwch hefyd ar ein tudalennau gwe am ragor o wybodaeth ar y pynciau hyn:
- Cynllunio rheoli adnoddau dŵr: https://naturalresources.wales/about-us/what-we-do/water/water-resource-management-planning/?lang=cy
- Sychder: https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/water-management-and-quality/drought-planning-and-management/?lang=cy
- Canllawiau ar gynlluniau sychder: https://cdn.naturalresources.wales/media/684414/final-wc-drought-plan-guidance-2017.pdf?mode=pad&rnd=131656713580000000

## Gollyngiadau a defnydd o ddŵr

Mae cwmnïau dŵr yn cyflwyno amrywiaeth eang o ddata i ni ac Ofwat, sy'n cynnwys cyfraddau gollyngiadau a defnydd dŵr. Bydd cyfraddau gollyngiadau Dŵr Cymru a gwybodaeth defnydd dŵr ar gyfer 2021/22 ar gael yn fuan yn discoverwater.co.uk/cy/.

[4] Rydym yn defnyddio categorïau cydymffurfio i sgorio achosion o dorri amodau trwydded. Maent ar raddfa o 1-4, gyda Chategori 1 yn cael effaith fawr bosibl ar yr amgylchedd, pobl a/neu eiddo, a Chategori 4 yn cael dim effaith. Mae Categori 3 yn debygol o gael effaith fach.

## Cydymffurfio â thrwyddedau gwastraff

Mae cwmnïau dŵr yn gweithredu amrywiaeth o weithgareddau gwastraff, yn amrywio o drin biowastraff, tirlenwi, hylosgi bio-nwy, llosgi slwtsh, a gorsafoedd trosglwyddo. Ar gyfer gweithgareddau a drwyddedir, rydym yn asesu cydymffurfedd yn erbyn amodau'r drwydded ac yn sgorio unrhyw ddiffyg cydymffurfio. Gwnaethom gynnal asesiadau cydymffurfio ar gyfer tri safle yn 2021. Nodwyd cyfanswm o bedwar achos o dorri amodau trwydded yn ystod dau o'r tri asesiad.

Dosbarthwyd yr holl achosion o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yng Nghategori 3. Er bod hwn yn gategori risg amgylcheddol is, disgwyliwn weld gwelliannau i sicrhau cydymffurfedd llawn.

Yn 2021, ni chafwyd unrhyw achosion o lygredd o weithgareddau gwastraff a weithredir gan Dŵr Cymru.

## Slwtsh

Cafodd y metrig defnyddio/gwaredu slwtsh yn foddhaol o fethodoleg yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol ei atal rhwng 2018 a 2020 wrth i ni adolygu sut rydym yn asesu ac yn adrodd ar berfformiad yn gyson ar draws y cwmnïau dŵr ar y gweithgaredd hwn. Yn yr adroddiad perfformiad blynyddol cyhoeddedig ar gyfer 2020, gwnaethom gynnwys naratif ar berfformiad y sector o ran defnyddio a gwaredu slwtsh yn foddhaol.

Rydym wedi adfer y metrig defnyddio/gwaredu slwtsh yn foddhaol o 1 Ionawr 2022 fel metrig cysgodol ar gyfer blwyddyn adrodd 2021 (2022). Ni fydd y metrig cysgodol yn effeithio ar sgôr seren Dŵr Cymru. Bydd gweithredu fel metrig cysgodol ym mlwyddyn adrodd 2021 yn ein galluogi i adolygu ac, os oes angen, addasu'r metrig.

Nid yw'r metrig cysgodol presennol yn adlewyrchu ar berfformiad blaenorol na chyfredol Dŵr Cymru o ran defnyddio slwtsh; ni wnaeth ein hadolygiadau blaenorol o'r arferion defnyddio slwtsh amlygu unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio â'r data a adroddwyd. Mae defnyddio a gwaredu slwtsh carthion yn foddhaol wedi aros ar 100%. Mae Dŵr Cymru wedi parhau i storio slwtsh yn unol ag esemptiad storio gwastraff A3 ac yn defnyddio'r slwtsh yn unol â'r Rheoliadau Slwtsh (Defnydd Amaethyddol) a Chynllun Sicrwydd Biosolidau. Yng Nghymru, rydym yn gweithio gyda Dŵr Cymru ar gytundebau ychwanegol i wella'r gofynion o fewn y rheoliadau presennol, megis hysbysu gwell.

## Gorfodi (uwch na rhybudd)

Yn 2021, gwnaethom gwblhau ein hymateb gorfodi ar gyfer dau ddigwyddiad llygredd yng Nghymru a oedd yn uwch na rhybudd.

Yn 2021, cafodd Dŵr Cymru ei erlyn am ddigwyddiad llygredd, torri amodau trwydded a lladd pysgod a ddigwyddodd ym mis Medi 2018 yn ei waith trin dŵr gwastraff, Five Fords, lle cyflawnwyd troseddau o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 a Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975. Gosododd y llysoedd ddirwy o £180,000, costau o £25,701.50 a gordal dioddefwr o £170.

Derbyniodd Dŵr Cymru hefyd rybuddiad ffurfiol yn 2021 am ddigwyddiad o lygredd ym mis Medi 2019 yng Ngwaith Trin Maerdy, lle cyflawnodd drosedd o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016.

O fewn rhan Lloegr o'i weithrediadau, ni chymerwyd unrhyw gamau gorfodi uwch na rhybudd yn ystod 2021.

## Diogelwch cronfeydd dŵr

Ar ddiwedd 2021, roedd Dŵr Cymru yn rheoli 134 o gyforgronfeydd dŵr mawr (132 yng Nghymru, dau yn Lloegr), â chynhwysedd uwch sy'n fwy na 10,000$m^3$, yr ydym yn eu rheoleiddio o dan Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975. Mae'r Ddeddf hon yn sicrhau bod camau gweithredu sylfaenol yn cael eu gweithredu er mwyn atal dŵr rhag gollwng allan o reolaeth ac arwain at lifogydd mewn cymunedau i lawr yr afon. Mae'r camau'n cynnwys penodi panel o beirianwyr cronfeydd dŵr arbenigol a gweithredu'n gyflym ar eu hargymhellion.

Mae'n rhaid i gronfeydd dŵr sydd wedi'u dynodi fel cronfa ddŵr uchel ei risg fod yn destun archwiliadau statudol cyfnodol a gweithredu'r argymhellion a wneir gan beiriannydd archwilio annibynnol. Rhaid i'r cronfeydd dŵr hyn hefyd gael eu goruchwylio gan beiriannydd sifil cymwys ar bob adeg, a rhaid cadw cofnodion o'r brif wybodaeth a gweithgareddau monitro.

Arhosodd cydymffurfedd Dŵr Cymru yn erbyn y dangosyddion diogelwch allweddol yn uchel drwy gydol y flwyddyn, gyda dim ond un achos o dorri dangosydd ym mis Ebrill-Mehefin 2021 a hynny yn erbyn y dangosydd diogelwch allweddol o 'gwblhau mesurau diogelwch o fewn amserlenni statudol'. Digwyddodd y toriad oherwydd na chafodd gwaith diogelwch statudol yng nghronfa ddŵr Llandegfedd ei gwblhau o fewn yr amserlen a argymhellwyd gan y peiriannydd archwilio. Rhagwelwyd hyn ac fe'n hysbyswyd fwy na blwyddyn cyn y dyddiad cydymffurfio. Cadarnhaodd arolygiad 2021 gynnydd boddhaol a nododd waith dilynol sydd i'w gwblhau erbyn 2025.

## Rheoli perygl llifogydd

O dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, caiff cwmnïau dŵr a charthffosiaeth eu diffinio fel awdurdodau rheoli risg. Rhaid iddynt ymddwyn mewn modd sy'n gyson â'r Strategaeth ar gyfer Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru a'r Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol Genedlaethol ar gyfer Lloegr. Mae ganddynt ddyletswydd i gydweithredu ag awdurdodau rheoli risg eraill yng Nghymru a Lloegr.

Bob ychydig o flynyddoedd, rydym yn llunio adroddiad i Weinidogion Cymru ar sut caiff perygl llifogydd ac erydu arfordirol eu rheoli ledled Cymru ac ar y gweithgareddau sydd ar waith i godi ymwybyddiaeth y rhai hynny sydd mewn perygl a chynyddu eu cydnerthedd. Rydym yn gwneud hyn ar ran yr holl awdurdodau rheoli risg sy'n gweithredu yng Nghymru, gan gynnwys felly Dŵr Cymru. Disgwylir yr adroddiad nesaf ym mis Hydref 2022 (dwy flynedd ar ôl cyhoeddi'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru) a bob dwy flynedd ar ôl hynny. Gweler ein tudalen we Perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru am ragor o wybodaeth.

# Disgwyliadau perfformiad ar gyfer 2022

## Heriau ar gyfer yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol

Wrth i ni symud ymlaen drwy gyfnod adrodd pum mlynedd newydd yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol (2021-25), rydym yn disgwyl i Dŵr Cymru wneud cynnydd cadarnhaol ar draws pob un o'r chwe metrig. Mae metrigau newydd yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol yn parhau i dynhau dros gyfnod adrodd hwn yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol (2021-25), gan sicrhau bod targedau'n heriol i'r cwmni. Disgwyliwn iddo roi mesurau ar waith i adennill a chynnal statws cwmni uchel wrth i ni symud ymlaen drwy gyfnod adrodd newydd yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol (2021-25). Yn benodol:

- lleihau cyfanswm y digwyddiadau carthffosiaeth flwyddyn ar ôl blwyddyn – gan anelu at sero;
- atal yr holl ddigwyddiadau llygredd difrifol (carthffosiaeth a chyflenwad dŵr) yn y tymor byr;
- gwella cydymffurfedd ansawdd dŵr rhifol – i gyflawni 100%;
- gwella'r drefn a sefydlogi hunangofnodi digwyddiadau llygredd;
- cynnal cyfradd gyflawni o 100% ar gyfer Cynllun Rheoli Asedau'r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol;
- cynnal perfformiad ar y Mynegai Cydbwysedd rhwng Cyflenwad a Galw.

## Heriau ar gyfer perfformiad amgylcheddol ehangach

Fel yr amlinellir yn Rhan 2 o'r adroddiad, mae sawl maes arall o berfformiad amgylcheddol sydd angen eu gwella a chanolbwyntio arnynt, sef:

- gwneud gwelliannau sylweddol o ran cydymffurfio ag amodau disgrifiadol mewn gweithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr (metrig Asesiad Perfformiad Amgylcheddol – wrthi'n cael ei datblygu);
- gwrthdroi'r duedd sy'n gwaethygu ar gyfer digwyddiadau cyflenwad dŵr;
- parhau i wella cydymffurfedd â thrwyddedau adnoddau dŵr;
- lleihau effaith gorlifoedd stormydd drwy gyflawni ei gamau gweithredu yn y cynlluniau gweithredu â'r mapiau trywydd ar gyfer gorlifoedd stormydd.

# Atodiad 1: Methodoleg

## Y fethodoleg asesu perfformiad a ddefnyddiwyd gennym

Mae adroddiadau ar berfformiad cwmnïau dŵr yn cael eu cynnal bob blwyddyn ar sail blwyddyn galendr.

Ers 2011, rydym wedi defnyddio'r un metrigau a dulliau Asesu Perfformiad Amgylcheddol ag Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae hyn yn golygu y gallwn adrodd a meincnodi perfformiad Dŵr Cymru'n gyson yn erbyn cwmnïau dŵr a charthffosiaeth mawr eraill yn Lloegr.

Rydym yn cyfuno ein data perfformiad yng Nghymru â data y mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn ei gyflwyno i ni ar gyfer yr ardal Dŵr Cymru a saif o fewn Lloegr. Mae'r adroddiad hwn felly yn adrodd ar berfformiad Dŵr Cymru yn ei gyfanrwydd.

Mae metrigau’r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol yn mesur perfformiad sy'n gysylltiedig â'r canlynol:

- lleihau digwyddiadau llygredd a chynyddu nifer y digwyddiadau a adroddir gan y cwmni;
- cydymffurfio â'r trwyddedau gollwng ar gyfer gweithfeydd trin carthion a dŵr;
- cyflawni cynlluniau gwella’r amgylchedd;
- darparu cyflenwadau dŵr diogel (Mynegai Cydbwysedd rhwng Cyflenwad a Galw).

Mae'r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol wedi'i osod dros gyfnod Cynllun Rheoli Asedau cyfredol y cwmnïau dŵr, sy'n rhedeg o fis Ebrill 2020 i fis Mawrth 2025. Mae'r metrigau'n absoliwt yn hytrach na'n gymharol. Felly dylai pob cwmni sy'n cael ei fesur yn erbyn metrigau Asesiad Perfformiad Amgylcheddol allu cyflawni statws cwmni pedair seren sy'n arwain y diwydiant.

## Adrodd yn y dyfodol

Rydym wedi bod yn gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd i adolygu metrigau'r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol ar gyfer 2021 ymlaen ac wedi ymgynghori'n allanol (gan gynnwys gyda'r holl gwmnïau dŵr). Rydym wedi cytuno i fabwysiadu'r un metrigau yng Nghymru â'r rhai yn Lloegr er mwyn ein galluogi i barhau i feincnodi Dŵr Cymru yn erbyn y naw cwmni dŵr a charthffosiaeth mawr eraill yn Lloegr. Rydym wedi penderfynu cynnwys ‘metrig – wrthi'n cael ei ddatblygu’ newydd yn yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol ar gyfer Dŵr Cymru ers 2020 (gweler tudalennau 10-11) ar gydymffurfio ag amodau disgrifiadol gan fod gennym bryderon yng Nghymru ynglŷn â pherfformiad yn y maes hwn.

# Atodiad 2: Crynodeb o berfformiad 2012-21 Dŵr Cymru yn yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol

Mae'r tabl isod yn dangos sut mae'r cwmni wedi perfformio yn erbyn y metrigau ers 2012:

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2015E[5] | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Digwyddiadau llygredd (carthffosiaeth)** Digwyddiadau Cat 1-3 fesul 10,000 km o garthffosydd | 110 | 66 | 59 | 59 | 30 | 30 | 28 | 28 | 26 | 21 | 23 |
| **Digwyddiadau llygredd difrifol (asedau carthffosiaeth a chyflenwad dŵr)** Cyfanswm y digwyddiadau (Cat 1 a 2) | 3.3 | 1.1 | 2.2 | 1 | 0.6 | 0.6 | 0.3 | 0.8 | 0 | 0.3 | 3[6] |
| **Hunangofnodi digwyddiadau llygredd** % | 47 | 48 | 60 | 74 | 74 | 68 | 63 | 75 | 73 | 80 | 76 |
| **Cydymffurfio â thrwyddedau gollwng (gweithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr** % | 98.6 | 97.7 | 97.8 | 98.6 | 97.1 | 99.0 | 96.7 | 98.0 | 98.3 | 99.7 | 98.3 |
| **Cyflawni Cynllun Rheoli Asedau'r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol** % y gwaith cyflawni arfaethedig | 116 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | 99 | 100 | 100 | 100 |
| **Mynegai Cydbwysedd rhwng Cyflenwad a Galw** | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | 100 | 100 | 98 | 100 | 100 | 100 | 100 |

[5] Mae'r golofn o dan y pennawd 2015E yn cyfeirio at set ddata 2015, sydd wedi'i hasesu gan ddefnyddio'r meini prawf ar gyfer Asesiadau Perfformiad Amgylcheddol (2016-2020). Mae hon wedi'i chynnwys at ddibenion cymharu yn unig. Mae'r trothwyau Coch/Oren/Gwyrdd yn cael eu hadolygu bob pum mlynedd.

[6] O dan fetrigau llymach ac ehangach yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol yng nghyfnod pum mlynedd newydd yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol (2021-25), mae'r metrig digwyddiadau llygredd difrifol bellach yn cynnwys digwyddiadau dŵr glân difrifol (o asedau cyflenwad dŵr).

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Defnyddio/gwaredu slwtsh yn foddhaol %** | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | Amherthnasol[7] | Amherthnasol[7] | Amherthnasol[7] | Amherthnasol[7] |
| **Sgôr seren y cwmni** | 3 seren | 3 seren | 3 seren | 3 seren | 3 seren | 3 seren | 2 seren | 3 seren | 3 seren | 4 seren | 3 seren |

Allwedd: Sgôr seren y cwmni

| | |
|---|---|
| 4 seren | Cwmni sy'n arwain y diwydiant |
| 3 seren | Cwmni da |
| 2 seren | Cwmni sydd angen ei wella |
| 1 seren | Cwmni sy'n perfformio'n wael |

[7] Gwnaethom ohirio adrodd ar y metrig slwtsh ers 2018-2020 wrth inni adolygu sut rydym yn asesu ac yn adrodd ar berfformiad yn gyson ar draws y cwmnïau dŵr ar y gweithgaredd hwn yn y dyfodol. Rydym wedi adfer y metrig slwtsh fel metrig cysgodol ar gyfer blwyddyn adrodd 2021 (2022). Ni fydd y metrig cysgodol yn cael effaith ar sgôr seren y cwmni dŵr, ond bydd yn caniatáu inni adolygu ac, os oes angen, addasu'r metrig.